

Gwybodaeth i Fenywod Beichiog am MRSA

Y Tîm Atal Heintiau

Beth yw MRSA?

Mae MRSA yn sefyll dros Staffylococws Ategol sy'n Gwrthsefyll Methisilin, micro-organeb neu fyg a geir weithiau ar wahanol rannau o'r corff. Gellir cael MRSA yn unrhyw le a'i drosglwyddo drwy gysylltiad â phobl neu wrthrychau. Mae'n anghywir meddwl mai dim ond mewn ysbytai y ceir MRSA.

Efallai eich bod wedi darllen am MRSA yn y papurau newydd neu wedi gweld rhywbeth ar y teledu.

Efallai eich bod hyd yn oed wedi'i drafod yn y gorffennol gyda'ch teulu neu ffrindiau.

Gellir adnabod MRSA drwy berfformio Sgriniad MRSA (Gweler isod)

Beth yw sgriniad MRSA?

Mae sgriniad MRSA yn weithdrefn gyflym a di-boen. Cymerir swabiau o'r trwyn, y gwddf, y groth ac unrhyw glwyf neu ardaloedd sydd wedi torri ar y corff, e.e. wlserau coesau neu ecsema. Os oes gennych gathetr troethol yn ei le, bydd sampl o wrin hefyd yn cael ei anfon.

Fel arfer, bydd aelod o staff yn cyflawni'r weithdrefn hon i chi a dim ond ychydig funudau y bydd yn ei gymryd.

Anfonir y swabiau i'r labordy Microbioleg i'w prosesu, a bydd rhwng 48 a 72 awr cyn i'r canlyniadau gael eu hadnabod.

Pam ydych chi'n sgrinio menywod beichiog ar gyfer MRSA?

Mae rhai pobl yn cario MRSA ar wahanol rannau o'r corff heb fod yn ymwybodol ohono, neu heb achosi unrhyw niwed iddynt. Gellir trosglwyddo MRSA drwy gyswllt neu hyd yn oed drwy gyffwrdd â gwrthrych, mae'n bwysig sgrinio i fod yn ymwybodol o bwy sydd ag MRSA fel y gellir lleihau'r risg o groeshalogi i chi eich hun ac eraill.

Yn yr ysbyty, mae llawer o unigolion sy'n fwy agored i heintiau nag eraill. Gellir asesu unigolion sydd ag MRSA i weld a fyddent yn elwa o gael triniaeth.

A fyddaf yn cael fy sgrinio ar gyfer MRSA yn ystod fy meichiogrwydd?

Os ydych yn feichiog bydd angen sgriniad arnoch ar gyfer MRSA yn ystod wythnosau 30-36 y beichiogrwydd os ydych yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf canlynol:

- Rydych am gael Toriad Cesaraid
a/neu
- Eich bod wedi aros yn yr ysbyty dros y 12 mis diwethaf
a/neu
- Os yw'n hysbys bod gan rywun yn eich cartref MRSA
a/neu
- Mae gennych unrhyw gyflyrau croen fel ecsema neu soriasis
a/neu
- Eich bod wedi cael MRSA yn y gorffennol.
a/neu
- Rydych yn weithiwr gofal iechyd yn unrhyw le yn y gwasanaeth iechyd:-
ysbyty, yn y gymuned neu breifat.

Os ydych yn teimlo eich bod yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod, trafodwch â'ch bydwraig a/neu'r meddyg Obstetrig pryd y cewch eich sgrinio.

Sut bydda i'n gwybod os oes gennyf MRSA?

Bydd eich Bydwraig neu'r meddyg Obstetrig yn rhoi gwybod i chi.

Os oes gennyf MRSA, sut y caiff ei drin?

Os oes gennyf MRSA, bydd eich Meddyg Ymgynghorol Obstetrig neu Fydwraig yn siarad â'r Microbiologydd Ymgynghorol. Penderfynir a oes angen triniaeth i chi.

Gellir trin MRSA mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft: Gellir trin MRSA a geir yn y trwyn gydag eli trwyn; gellir trin MRSA ar y croen â golchion y corff; ac mae amryw fathau o olch ceg ar gael ar gyfer MRSA yn y gwddf.

Am ba hyd bydd y driniaeth yn para?

Fel arfer, mae'n bum diwrnod ar ôl dechrau'r driniaeth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwch yn cael ail swab yn dilyn triniaeth i weld a yw'r MRSA wedi mynd. Fel arfer, cymerir y sgriniad cyntaf 48 awr ar ôl i chi gwblhau eich triniaeth. Bydd dau sgriniad arall yn cael eu cymryd bob wythnos.

Weithiau nid yw bob amser yn bosibl cael tri sgriniad negyddol

Os ydych chi dal ag MRSA pan fyddwch yn dod i'r ysbyty i gael eich babi, cewch eich derbyn i'ch ystafell eich hun. Bydd y bydwagedd, y meddygon a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwisgo menig a ffedogau pan fyddant yn rhoi eich gofal i chi. Os ydych yn cael toriad Cesaraidd bydd y meddygon Obstetrig yn siarad â'r Microbiolegwyr ynghylch therapi gwrthfotig cyn eich toriad cesaraidd.

Beth os oes gennyf fwy o gwestiynau?

Mae'r Tîm Atal Heintiau ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 4.30pm i ateb unrhyw gwestiynau pellach sydd gennych. Gofynnwch i aelod o staff gysylltu â nyrs atal heintiau ar eich rhan, neu ffoniwch ni ar:-

Ysbyty Brenhinol Gwent 01633 - 238101 / 234921

Ysbyty Nevill Hall 01873 - 732048 / 01873 732613

Mae cyfleuster ffôn ateb ar gael ar y rhifau uchod neu fel arall, gofynnwch i aelod o staff ein rhoi drwy'r switsfwrdd ysbyty.

Ysbyty Brenhinol Gwent 01633 - 234234

Ysbyty Nevill Hall 01873 732048

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau a allai fod gennych i ni.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**